

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/12602>

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Chwefror 2022

Amser: 09.17 – 14.45

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jayne Bryant AS (Cadeirydd) Joel James AS (yn lle James Evans AS) Laura Anne Jones AS Ken Skates AS Buffy Williams AS Sioned Williams AS
Tystion:	Dyfrig Ellis, Estyn Jassa Scott, Estyn Delyth Gray, Estyn
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Tom Lewis-White (Ail Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) Sian Thomas (Ymchwilydd) Michael Dauncey (Ymchwilydd)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan James Evans AS, roedd Joel James yn dirprwyo ar ran eitemau 2 i 4.

2 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymysg dysgwyr – sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Estyn.

2.2 Cytunodd Estyn i ddarparu adroddiadau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i'r Aelodau.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am weddill y cyfarfod a'r cyfarfod cyfan ar 17 Chwefror.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymysg dysgwyr – trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

6 Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddarau yn dilyn y drafodaeth a'i ystyried eto yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau – trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Oherwydd yr amserlenni adrodd, cytunodd yr Aelodau y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei gytuno'n electronig. Byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei osod ar 15 Chwefror.

8 Hyfforddiant Hawliau Plant

8.1 Mynychodd yr Aelodau sesiwn hyfforddi ar hawliau plant.